

Rhif 387 – Rhyddiaith Bl 12 ac 13 – Unrhyw ffurf ar y thema - Newid Sylwadau'r Beirniad – Alun Jones

Cafodd y cystadleuwyr y rhyddid i ddewis unrhyw ffurf ar y thema Newid. Gwnaeth hyn y gwaith o ddarllen yn ddiddorol wrth i'r cystadleuwyr ddewis amrywiaeth o ffurfiau gan gynnwys araith, ysgrif yn mynegi barn, pennod agoriadol nofel, portread, ymsonau, dyddiaduron ac wrth gwrs storiâu byrion. Rhoddais y prif bwyslais ar safon greadigol y cystadleuwyr, gan faddai i'r mân wallau ond nid i'r gwallau cystrawennol. Byddai wedi bod yn fuddiol i'r cystadleuwyr ddychwelyd at eu cyfansoddiadau wedi cwblhau'r ail neu'r trydydd drafft a phenderfynu pa ansoddeiriau a delweddau sy'n hanfodol i'w cynnwys. Llwyddodd y goreuon osgoi cynnwys cymariaethau a delweddau sydd wedi eu defnyddio i ennyn sylw ac i greu argraff.

Cefais fy mhlesio gan gyfansoddiadau'r 35 o ymgeiswyr, ond roedd angen dychymyg, y gallu i saernïo darn yn gelfydd a'r gallu i ymatal o safbwynt crefft a chynnwys i gyrraedd y brig.

Sylwadau unigol byrion ar y cyfraniadau:

Rhif 387/1: Neb

Portread o berson sy'n gwerthu'r *Big Issue*. Portread diffuant o Carlos o Syria ac yn llwyddo i ffrwyno'r teimladau. Yn defnyddio adeg y Nadolig i bwysleisio'i dlodi a gwneir hynny hefyd drwy gyferbynnu ei fywyd â bywyd y ci. Ni theimlaf fod y newid sydyn yn agwedd yr hwedi bygythiol wedi llwyddo i'm hargyhoeddi, ond llwyddodd y ferch fach wrth gloi'r stori fy argyhoeddi'n llwyr. Anodd fu treiddio i wir hanfod ei druenusrwydd, ond dangosodd Neb y gallu i greu trosiadau dyfeisgar. Gwaith addawol.

Rhif 387/2: Non

Problemau yn ymwneud â bwyta adeg pen-blwydd ei chwaer a gawn gan Non a gwelwn ei bod yn personoli'r salwch. Er bod diffuantrwydd yn y gwaith, eto i gyd doedd dim digon o newydd-deb i hawlio sylw'r darllenydd.

Rhif 387/3: Bet

Darlunio perthynas rhwng dwy chwaer a gawn gan Bet a dysgwn fod Siwan, yr hynaf, yn sâl ac yn marw. Ymsonau a gawn ac mae ambell ddelwedd yn hawlio sylw ac yn dangos addewid. Gochelwch rhag i'r cwestiynau rhethregol fod yn rhy ystrydebol. Teimlaf fod y gwrthgyferbyniad yn agwedd ei chwaer tuag at Siwan, rhwng y rhan gyntaf a'r ail yn digwydd yn rhy sydyn. Mae angen cynfas ehangach i drafod sefyllfa mor ddyrys.

Rhif 387/4: Malan

Tybed ydych chi wedi rhoi digon o ystyriaeth i arddull dyddiadur? Teimlwn fod y gwaith yn fwy o gyfres o ymsonau nag o ddyddiadur. Gochelwch rhag i'r cwestiynau rhethregol droi'n ystrydebol. Syniad da oedd rhoi sylw i Jeff y ci am ei fod yn cyflwyno elfen mwy personol i'r gwaith. Teimlaf fod angen i'r elfen bersonol fod yn amlycach.

Rhif 387/5: Angharad

Cyfres o ymsonau ar dri chyfnod arbennig a gawn. Wedi dewis yr arddull briodol mewn ieithwedd lled lafar ac wedi llwyddo osgoi cynnwys cymariaethau sydd yno i dynnu sylw ac i greu argraff. Yn ystod yr ymson agoriadol mae hi'n ddeunaw oed ac yn ysu am fynd i'r coleg wrth orwedd yn ei gwely, a chawn yn achlysurol ein hatgoffa o hynny. Hon yw'r ymson sy'n rhagori, efallai am fod yr awdur yn byw'r profiad ar hyn o bryd. Ni chyrraeddodd yr un safon yn yr ail ymson a hithau'n fam i ddau o blant. Syniad da yn y clo a hithau'n hen nain.

Rhif 387/6: Nel

Agoriad trawiadol er y byddai ychydig o docio wedi talu ar ei ganfed er mwyn osgoi ail adrodd yr un syniadau. Wedi dewis dyddiadur fel ffurf er na fabwysiadwyd arddull dyddiadur, ond yn hytrach defnyddiwyd y trydydd person ac mae hynny'n ddigon derbyniol. Yr hyn sydd ar goll yw diffyg datblygiad. Tybed ydyw hwn yn gynfas rhy eang i stori fer er mwyn gwneud cyfiawnder ag ef?

Rhif 387/7: Maesglas

Wedi dewis dyddiadur fel ffurf ac mae hynny'n hollol addas. Hoff o'r cynildeb wrth ddisgrifio'r ddamwain yn yr ail ddarn. Yn y gwaith cawn ambell sylw a disgrifiad cofiadwy: 'unigedd yn cymryd ffurf y diafol; y gorffennol wedi cuddio fy nyfodol; teimlo popeth ac yn teimlo dim.' Byddwch yn ofalus rhag gordefnyddio cwestiynau rhyethregol. Efallai fod angen mwy o sylw ar boen y golled yn y dyddiadur, er mor anodd disgrifio hynny'n gynnwl. Gwaith addawol.

Rhif 387/8: Rhosyn

Cawn ambell ymson sy'n dangos addewid ac yn codi'r gwaith i dir uchel. Yn anffodus, mae'r dewis o ambell air yn ddiffygiol a'r mynegiant ar adegau'n drwsgwl. Teimlaf nad yw Rhosyn wedi ymdreiddio'n ddigonol i mewn i golled Cari a bod y diwedd glo'n ddull rhy hawdd o gloi'r stori.

Rhif 387/9: Daffodil

Gwnaeth Daffodil greu bwgan iddi hi ei hun yn yr ymson drwy osod Caryl yn berson nad yw'n cyfathrebu â'i brawd na'i chwaer. Drwy ei chynnwys fel unigolyn ar wahan i bawb ond ei mam efallai, o reidrydd mae hwn yn ddarn unffurf o ran syniadau ac arddull.

Rhif 387/10: Dant-y-llew

Hoff iawn o'r blogiau agoriadol sy'n llwyddo i gyfleu merch ifanc yn gwrthryfela. Llwydda i gyfleu hynny, er rhaid holi a ydyw wedi newid digon ar ei harddull i'w gynnwys fel blog. Ond nid hynny yw'r bwgan. Yr hyn sy'n anodd ei dderbyn ydyw mor hawdd mae'n newid ei hagwedd tuag at yr iaith Gymraeg yn gyfan gwbl. Angen meddwl yn ddyfnach i sicrhau bod y newid yn gredadwy.

Rhif 387/11: Llygad y dydd

Nid yw hon yn stori uchelgeisiol, ond eto i gyd rhaid cyfaddef eich bod wedi llwyddo i'w chyflwyno'n llwyddiannus. Teimlaf fod y ddawn gennych i anelu'n uwch a bod yn rhaid i chi wneud hynny er mwyn ennill gwobr mewn cystadleuaeth mor safonol.

Rhif 387/12: Llwlwyn

Hanes ffermdy fynyddig a blas y pridd ar y disgrifiadau a'r digwyddiadau. Llauer o ymadroddion pert sy'n gweddu'n hollol i'r darn ac a roddodd bleser i mi wrth eu darllen. Roedd cyfle i ddatblygu'r darn hwn yn arbennig gan fod y diwedd glo'n digwydd yn llauer rhy sydyn.

Rhif 387/13: Swyn

Cofnod mewn dyddiadur a gawn sy'n disgrifio effaith lladd ffrind gorau mewn damwain car. Yn anffodus mae tueddiad yn y darn i droi yn ei unfan ac ychwanegir at hynny gan y ffaith fod arddull y darn yn unffurf. Sylwer bod pedwar o'r paragraffau yn agor gyda'r ferf 'Dwi'. Ai'r ffurf sydd wedi eich caethiwo? Teimlwn fod angen datblygiad.

Rhif 387/14: Gwenllian

Y perygl o gau ysgol wledig yw cefndir y stori hon a chawn ymateb hynafgwr, Tegwyn Jones a merch ifanc 6 blwydd oed i'r digwyddiad. Hel atgofion am ei blentyndod wna Tegwyn 'am ei fyd diniwed yn ei blentyndod'. Er nad atgofion melys mo'r cyfan gan i dri o'r pentref gael eu lladd. Y ddawn gan Gwenllian i greu darluniau credadwy, a theimlaff y gall rymuso'r ddawn honno drwy fireinio ychydig ar y mynegiant.

Rhif 387/15: Gŵr y Gwili

Un o'r storiâu mwyaf heriol yn y gystadleuaeth efallai. Plentyn a gawsai ei fagu gan ei fam ac un sy'n chwilio am ei dad yw'r prif gymeriad. Wedi darganfod mai'r seiciatrydd a fanteisiodd ar ei fam ydyw aiff i ymweld ag ef wedi ei arfogi â chylllell. Hoff iawn o adeiladwaith y stori ac mae nodiadau'r fam yn ychwanegu at y stori. Yn anffodus nid yw'r mynegiant gan Gŵr y Gwili ar hyn o bryd i drosglwyddo'r stori'n llwyddiannus.

Rhif 387/16: Buddug

Pam y dylai S4C symud ei bencadlys o Gaerdydd i Gaerfyrddin? Cymraeg graenus a'r gallu i ymresymu'n amlwg iawn ac o ganlyniad cafwyd araith gref. Hoffwn petaech wedi trafod y gwrthddadleuon megis datganiad pennaeth S4C na fydd ef yn symud i fyw yng Nghaerfyrddin ond yn hytrach yn teithio yno o ardal Caerdydd. Ai teithio fydd eraill o staff S4C? Pa effaith gaiff hynny?

Rhif 387/17: Ifor Preis

Pennod agoriadol nofel. Tasg heriol iawn. Gafael dda ar y Gymraeg, ond teimlwn nad ydych wedi astudio digon ar benodau agoriadol nofelau da. Does dim digon o ddyfnder ym mherthynas Angharad a Tom i gynnal nofel. Nid dweud yn blwmp ac yn blaen bod Tom mewn cariad â hi y dylsech wneud ond darlunio hynny.

Rhif 387/18: Glas

Mae Glas yn ymhyfrydu yn ei g/allu i ddisgrifio a gwelir hynny'n amlwg yn y paragraff cyntaf. Mae angen dewis a dethol yr ansoddeiriau a'r delweddau a ddefnyddir yn hytrach nag ymgolli i arddangos eich dawn. Cawn bortreadau diddorol o'r cyd-deithwyr ac mae'r disgrifiad o'r ddamwain yn ddigon cynnil. Dawn yma ond mae'n werth dychwelyd at y gwaith a phenderfynu pa ansoddeiriau a delweddau sy'n hanfodol i'w cynnwys.

Rhif 387/19: Ann Olwen

Aiff Ann Olwen â ni i'r Rhondda ac i'r flwyddyn 1930 gan ddisgrifio miloedd o weithwyr dros y ffin yn heidio i'r Rhondda gan newid naws y lle. Cawn ddisgrifiad o gri'r glowyr wrth fynd ar streic a'u hafiaith. Mae hyn mewn cyferbyniad â'u hymdrech i fwydo eu teuluoedd ymhen blwyddyn wrth iddynt barhau ar streic. Trodd ffrind gorau y prif gymeriad yn fradwr wrth iddo ildio a rhoi'r flaenoriaeth i'w deulu dros ei gymuned. Cawn y cofnod olaf ymhen ugain mlynedd wrth i'r glöwr bwysu a mesur y dylanwadau a'r newidiadau a fu ar y Cwm. Tybed a ddylai'r cofnod olaf hwn fod ychydig yn fwy dadansoddol ei naws ac yntau wedi heneiddio?

Rhif 387/20: Lois

Caiff dawn ysgrifennu amlwg ei amlygu yn y stori hon. Yn anffodus, wrth ddewis merch mewn anobaith fel prif gymeriad y stori ni lwyddodd Lois i ddianc rhag yr anobaith hwnnw. Darlun unochrog felly a gawn ac ni lwydda Lois i ddianc rhagddo. Byddai creu darlun gobeithiol neu led obeithiol yn ychwanegu at yr anobaith drwy greu gwrthgyferbyniad.

Rhif 387/21: Dafad ddu

Gafael gadarn ar yr iaith a dawn trin geiriau'n amlwg yn y stori. Byddai wedi bod yn werthfawr dychwelyd at y gwaith wedi'r ail ddrafft a phenderfynu pa ansoddeiriau a

delweddu sy'n hanfodol i'w cynnwys a pha rai y gellid ei hepgor. Gwelaf fod y diffyg gofal o'i braidd yn symbol o'i fywyd. Cloi'n bwrpasol.

Rhif 387/22: Aur

Ymson yn llawn ofnusrwydd wrth agor, gan ymboeni ynglŷn ag ofn methiant ac ofn unigrwydd heb unrhyw ffrindiau. Ymdroi ymhlith y teimladau tywyll a wnawn yn yr ymson, darlun sy'n llawn anobaith. Darlun unochrog felly a gawn gan Aur ac ni lwydda i ddianc rhagddo. Mae'r ymson yn galw am wrthgyferbyniad a byddai creu darlun o obaith yn ychwanegu at yr anobaith a deimla'r bachgen.

Rhif 387/23: Eiddwen Elysteg

Wedi dewis creu stori gan ddefnyddio fferm sy'n dioddef o'r clwy traed a'r genau fel cefndir iddi. Ymateb truenus y ffermwr druan yw hanfod y stori. Er mwyn creu newid trawiadol oni ellid bod wedi agor drwy greu golygfa ar y fferm cyn i'r clwy ymddangos? Byddai hynny yn ychwanegu at druenusrwydd y ffermwr yng ngweddill y stori. Y gallu i greu deialog yw un o gryfderau'r stori hon a hefyd y gallu i ddarlunio truenusrwydd yr hen ffermwr wrth wynebu ei golled.

Rhif 387/24: Dihiryng mewn ffilm

Dawn i adrodd stori yn cael ei amlygu gan yr awdur/es ac yn dewis bachgen ifanc sy'n arbenigo ar dorri i mewn i gar a'i ddwyn fel prif gymeriad. Mae'r agoriad wrth ei ddisgrifio yn dwyn y car yn argyhoeddi. Y stori'n datblygu wrth i ni gyfarfod â Mr Keylor a gwelwn ochr chwareus a digywilydd y lleidr. Mae datblygiad yn y stori wrth gloi, ond tybed ydy'r cyfan yn digwydd yn rhy gyflym wrth i bethau mawr ddigwydd? Tybed ydy'r cynfas yn rhy eang i wneud cyfiawnder ag ef mewn stori mor fer?

Rhif 387/25: Claerwen.

Teimlaf fod sensitifrwydd yn y gwaith hwn a bod dawn creu darluniau hudolus hyd yn oed yn cael ei arddangos. Yn anffodus mae angen grymuso'r mynegiant cyn llwyddo i greu gwaith gorffenedig.

Rhif 387/26: Coed Palmwydd

Stori syml ac ysgafn ydi hon, ond eto i gyd rhaid cyfaddef eich bod wedi llwyddo i'w chyfleu'n llwyddiannus. Teimlaf fod y ddawn gennych i anelu'n uwch a bod yn rhaid i chi wneud hynny er mwyn ennill gwobr mewn cystadleuaeth mor safonol.

Rhif 387/27: Y Ferch o Alltwn

Wedi cyfleu perthynas sigledig Dafydd a Carys yn arbennig o lwyddiannus a'r elfen derfysgol yn y gŵr. Er na fyddaf fel arfer yn hoff o'r tro yng nghynffon stori, eto i gyd gwnaethoch hynny'n llwyddiannus yn y stori hon. Ond roedd angen treiddio'n ddyfnach i fywydau'r ddau er mwyn sicrhau bod y clo'n argyhoeddi.

Rhif 387/28: Blodyn yr Haul

Dyddiadur sy'n darlunio bywyd gwraig sy'n cael ei cham-drin yn wael. Cafodd y dyddiadur ei ysgrifennu mewn ieithwedd goeth sy'n dderbyniol er y buaswn wedi disgwyl mwy o ddefnydd o'r iaith lafar. Cawn y newid yn ei bywyd wrth iddi lwyddo rhyddhau ei hun o'r berthynas a dychwelyd at ei mam. Buaswn wedi disgwyl ychydig mwy o benbleth wrth iddi benderfynu symud efallai a hithau wedi byw gydag ef cyhyd, ond eto i gyd, rhaid canmol y dyddiadur.

Rhif 387/29: Dartiau

Mae angen gosod y stori mewn lle arbennig a bod angen creu prif gymeriad mwy pendant nag a geir. Teimlaf mai creu stori yn seiliedig ar syniad a wnaeth Dartiau. Felly, er mor rymus yw'r stori a'r ffaith iddi gael ei gosod yng ngwlad Catalan, sy'n ennyn cydymdeimlad y darlennydd, teimlwn fod angen gwedd mwy bersonol yn y stori. Hoffwn, er enghraifft, gael golygfeydd mewn gorsaf bleidleisio a chyfarfod â rhai o'r ymgyrchwyr fel y gallwn uniaethu â'u profiadau.

Rhif 387/ 30: Ffleur-de-Taf

Mae'r stori wedi'i lleoli ar fferm ac yng nghwmni ffermwr nodweddiadol digon ceidwadol ei syniadau. Cyfres o olygfeydd byrion yw'r stori sy'n ymdebygu i sript drama deledu. Yn yr agoriad cawn wybod fod Gethin yn dychwelyd i'w gartref am 12 o'r gloch ar ddydd Sadwrn. Yna aiff y stori a ni yn ôl dros fywyd Gethin, ei enedigaeth ac ysfa'r tad am gael mab i helpu ar y fferm ac i chwarae rygbi. 'Ond nid Gethin oedd hynny erioed.' Llwydda'r stori i bendilio rhwng y presennol a'r gorffennol yn grefftus a chawn ein harwain at y clo sydd yn ein hyswyd. Er bod agwedd y tad at ei fab yn eithafol, nid yw'r awdur yn colli meistrolaeth ar ei stori.

Rhif 387/31: Rwdlan

Stori fach hyfryd sy'n defnyddio'r tylwyth teg fel y prif gymeriadau. Cawn wrthgyferbyniad llwyr rhwng bywyd ym myd ei mam sy'n llawn chwerwder dieflig a bywyd yng ngwlad ei nain sy'n llawn cariad. Defnyddio'r tylwyth teg a wna Rwdlan i ddarlunio gwerthoedd dynol a gwna hynny'n llwyddiannus. Efallai fod lle i rymuso'r clo, er mai efallai hollti blew ydw i wrth awgrymu hynny.

Rhif 387/32:Wydys

Dawn y llenor yn cael ei amlygu yn yr agoriad a llwydda i greu darluniau a disgrifiadau a wnaeth atal y darllen er mwyn ail flasu'r brawddegau. Yna, cawn eiriau tebyg yn cael eu hadrodd gan y terfysgwr ond o bersectif gwahanol. Syniad da. Teimlaf serch hynny fod rhywbeth ar goll ar y dudalen olaf. Rhaid canmol y cynildeb serch hynny ac mae'r llinell glo'n gofiadwy 'Mae'r nos yn tasgu ei dagrau dros y ddinas hon.'

Rhif 387/33: Bethania

Wedi arbrofi drwy gyfuno barddoniaeth a rhyddiaith i gyfleu'r ymwahanu yn dilyn dyddiau ysgol. Rwy'n canmol y rhyddiaith ond yn anffodus ni theimlaf fod y farddoniaeth yn cyrraedd yr un safon gan i chi ordefnyddio odlau sy'n tynnu sylw oddi ar y dweud.

Rhif 387/34: Adda

Teimlaf fod angen i chi wau'r wybodaeth rydych am ei gyfleu i'r darlennydd i mewn i gorff y stori yn hytrach na'i gyfleu yn uniongyrchol ac mor ffeithiol – 'Merch fach ifanc yw Lleucu... Mae'r ferch fach annwyl wedi dechrau mynd i gylch meithrin... Mae'r tŷ wedi'i lleoli ar draeth... Angen i ni'r darllenwyr fyw y profiadau yn eu cwmni yn hytrach na dweud beth sy'n digwydd iddyn nhw.

Rhif 387/ 35: Rwdlan Arall

Trafod annibyniaeth a wna Rwdlan Arall a chawn ymresymu cadarn yn ei gwaith mewn Cymraeg graenus. Yr hyn a'm trawodd oedd bod yma gystadleuydd deallus wedi darllen yn eang a bod y gallu ganddi i gyflwyno dadleuon ffres yn eglur. Mae ei gafael ar yr iaith Gymraeg yn sicrhau bod yr erthygl yn llifo'n hwylus a chefais fel darlennydd fy hudo ganddi. Llwydda hefyd i gyflwyno gwrthddadleuon a chynnig ymatebion iddynt. Yn ddiddadl dyma'r darn ffeithiol gorau yn y gystadleuaeth a'i champ yw gallu cynnig newydddeb ar destun y bu llawer o ddadlau a thrafod.

